Cystadleuaeth Sgiliau Cymru
Skills Competition Wales

# Competition Brief

## Competition Title

Inclusive Skills: Media

## Competition Overview

Digital Media staff are involved in all stages of a project, be it programme, film or video. They work with the Director, camera, sound, set design and also in post-production to assist in ensuring the project is completed successfully, on time and within budget.

The competition has been designed to focus on all the essential skills needed within the Digital Media industry. Competitors will undertake varying creative roles associated with producing a media production, ensuring they work towards industry standards.

## Entry Criteria

The competition is for those training for a career in the Media Industry and studying towards a Level 1 qualification.
Please ensure that your entrants have the skills and competences to complete the task.

## Entry capacity restrictions by organisation

Groups of up to three members may enter, with a maximum of up to 3 teams per organisation to be registered.
This is the maximum number of entries permitted by an organisation for this competition. This is determined by 'location' and 'organisation'. 'Organisation' refers to the competitors training provider/employer. 'Location' refers to a site where the competitor studies / is employed. For further guidance on these capacities, click here

## Brief

The theme this year is '**The Great Outdoors'.**

You are required to produce a 2 minute digital media production.

The scope of the competition enables learners to develop and demonstrate a variety of creative, technical and vocational skills that

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

are essential within the contemporary creative media industries.

Teams may enter work such as:

- Short Fiction Film
- Short Factual Film
- Audio
- Animation
- Motion Graphics
- Music Video
- Promotional Video

Your entry will need to be a self contained production, with a beginning, middle and end.

You are also be required to produce a storyboard of your digital media production which you can refer to when answering questions from the judges.. This will show the development of your project, your research and appropriate annotation (which should include camera movement, edit transitions, effects and sound on your storyboard).

This competition will be held online.

## Infrastructure List

The competition will take place remotely via Zoom, on [Date TBC].

## Competition Rules

Competitors are to:

- Ensure that work is no longer than 2 minutes duration
- Ensure that work adheres to BBCF 12A classification. Further information: https://www.bbfc.co.uk/what-classification/12a-and-12
- Ensure no un-cleared copyright material is to be included (including music)
- Any questions during competition activity should be addressed to the competition judging panel.
- If there is a power stoppage, breakdown of equipment or accident, the competitors must act according to the instruction of the organiser.

For full terms and conditions of entry and competition rules visit [www.inspiringskills.gov.wales/terms-and-conditions](http://www.inspiringskills.gov.wales/terms-and-conditions)

## Marking and Assessment

The following criteria will be used by the judges to decide which project is the winner of the Skills Competition Wales, Media Inclusive category for 2022:

| Criterion ID | Description | Max Marks |
|---|---|---|
| A | **Concept / Idea** | 25 |
| B | **Quality of finished video**<br>Does the work demonstrate technical competence in its chosen media – the quality of picture, sound, editing? | 40 |
| C | **Style & approach to the project**<br>Composed of predominantly original content, or clearly referenced supporting music or images | 15 |
| D | **Clarity of message**<br>Clarity and purpose of its intended aims and objectives. Project contains a self-contained narrative, delivering a clear beginning, middle and end. | 20 |
| | **Total Marks** | 100 |

## Feedback and Recognition

Individual and Group verbal feedback will be provided at the end of the competition.

No results or awards will be awarded on the day, as marking will be quality assured.

All competitors will be issued with a Participation Certificate and invited to an online Celebration Event which will be held Thursday 17th March 2022, where the First, Second and Third Awards will be announced. Further details will be communicated to competitors and their points of contacts by email.

Marksheets will be made available to competitors after the quality assurance process has been completed.

## Competition Lead

For general enquiries and technical advice about the competition please contact
Paul Edwards: paul.edwards@gllm.ac.uk

**Other Enquiries**
Nia Rhys Jones: n.jones@gllm.ac.uk

Cystadleuaeth Sgiliau Cymru
Skills Competition Wales

# Briff y Gystadleuaeth

## Enw'r Gystadleuaeth

Sgiliau Cynhwysol: Y Cyfryngau

## Trosolwg o'r Gystadleuaeth

Mae Staff Cyfryngau Digidol yn ymwneud â phob cam o brosiect, boed yn rhaglen, ffilm neu fideo. Maent yn gweithio gyda chyfarwyddwyr, gyda chamerâu, sain, dylunwyr set, ac maent yn rhan o'r broses ôl-gynhyrchu i helpu i sicrhau bod y prosiect yn cael ei gwblhau'n llwyddiannus, yn brydlon, ac o fewn y gyllideb.

Mae'r gystadleuaeth wedi'i dylunio i ganolbwyntio ar yr holl sgiliau sy'n hanfodol o fewn y diwydiant Cyfryngau Digidol. Bydd cystadleuwyr yn ymgymryd â rolau creadigol amrywiol sy'n gysylltiedig â chynhyrchu cyfryngau, gan sicrhau eu bod yn gweithio tuag at safonau'r diwydiant.

## Gofynion Mynediad

Mae'r gystadleuaeth hon ar gyfer y rhai sy'n hyfforddi ar gyfer gyrfa yn Niwydiant y Cyfryngau ac sy'n astudio tuag at gymhwyster Lefel 1.
Sicrhewch fod gan eich ymgeiswyr y sgiliau a'r gallu angenrheidiol i gwblhau'r dasg.

## Cyfyngiadau capasiti mynediad yn ôl sefydliad

Gall grwpiau o hyd at dri aelod ymuno, gydag uchafswm o hyd at 3 thîm i bob sefydliad i'w gofrestru erbyn [Date TBC].
Dyma'r nifer mwyaf o gystadleuwyr a ganiateir o bob sefydliad ar gyfer y gystadleuaeth hon. Penderfynir ar hyn yn ôl 'lleoliad' a 'sefydliad'. Mae 'sefydliad' yn cyfeirio at gyflogwr/darparwr hyfforddiant y cystadleuwyr. Mae 'lleoliad' yn cyfeirio at y safle lle mae'r cystadleuydd yn astudio/cael eu cyflogi. Am ragor o wybodaeth am y cyfyngiadau hyn, cliciwch yma

## Brîff

Y thema eleni yw '**Yr Awyr Agored Mawr**'.

Mae'n ofynnol i chi gynhyrchu cynhyrchiad cyfryngau digidol 2 funud.

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2021 – Skills Competition Wales 2021

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

Mae cwmpas y gystadleuaeth yn caniatáu i ddysgwyr ddatblygu ac arddangos amrywiaeth o sgiliau creadigol, technegol, a galwedigaethol sy'n hanfodol o fewn y diwydiannau cyfryngau creadigol cyfoes.

Gall timau gyflwyno gwaith megis:

- Ffilm Ffuglen Fer
- Ffilm Ffeithiol Fer
- Darn Sain
- Animeiddio
- Graffeg Symudol
- Fideo Cerddorol
- Fideo Hyrwyddo

Bydd angen i'ch cais fod yn gynhyrchiad hunangynhwysol, gyda dechrau, canol a diwedd.

Bydd gofyn i chi hefyd gynhyrchu bwrdd stori o'ch cynhyrchiad cyfryngau digidol i'w ddefnyddio fel rhan o'ch cyflwyniad ffurfiol i'r beirniaid. Bydd hyn yn dangos datblygiad eich prosiect, eich ymchwil, ac unrhyw nodiadau priodol (a ddylai gynnwys symudiad camera, golygiadau, trawsnewidiadau, effeithiau, a sain).

Bydd y gystadleuaeth hon yn cael ei chynnal ar-lein.

## Rhestr Seilwaith

Bydd y gystadleuaeth yn cael ei chynnal o bell trwy Zoom, ar [Date TBC].

## Rheolau'r Gystadleuaeth

Dylai'r Cystadleuwyr:

- Sicrhau nad yw'r gwaith yn fwy na 2 funud o hyd
- Sicrhau bod gwaith yn glynu wrth ddosbarthiad BBCF 12A. Gwybodaeth bellach: https://www.bbfc.co.uk/what-classification/12a-and-12
- Sicrhau nad oes unrhyw ddeunydd hawlfraint heb ei glirio yn cael ei gynnwys (gan gynnwys cerddoriaeth)
- Os bydd unrhyw gwestiynau yn ystod y gweithgareddau cystadlu, dylid eu cyfeirio at banel beirniaid y gystadleuaeth.
- Os bydd damwain, colled pŵer, neu fethiant offer, rhaid i'r cystadleuwyr weithredu yn ôl cyfarwyddiadau'r beirniaid.

I weld y telerau ac amodau mynediad a'r rheolau cystadlu yn eu cyfanrwydd ewch i [www.inspiringskills.gov.wales/terms-and-conditions](http://www.inspiringskills.gov.wales/terms-and-conditions)

## Marcio ac Asesu

Bydd y beirniaid yn defnyddio'r meini prawf canlynol i benderfynu pa brosiect sy'n enillydd categori Cystadleuaeth Sgiliau Cymru, Media Inclusive ar gyfer 2022:

| **Cyf. Maen Prawf** | **Disgrifiad** | **Uchafswm Marciau** |
|---|---|---|
| A | **Cysyniad / Syniad** | 25 |
| B | **Ansawdd y fideo gorffenedig**<br>A yw'r gwaith yn dangos cymhwysedd technegol yn y cyfrwng dewisol – ansawdd y llun, sain, golygu? | 40 |
| C | **Arddull a dull gweithio'r prosiect**<br>Yn cynnwys cynnwys gwreiddiol yn bennaf, neu gerddoriaeth neu ddelweddau ategol wedi'u cyfeirio'n glir. | 15 |
| D | **Eglurder y neges**<br>Eglurder a phwrpas nodau ac amcanion y darn. Mae'r prosiect yn cynnwys naratif hunangynhwysol, sy'n cyflwyno dechrau, canol a diwedd clir. | 20 |
| | **Cyfanswm Marciau** | 100 |

## Adborth a Chydnabyddiaeth

Bydd adborth llafar Unigol a Grŵp yn cael ei ddarparu ar ddiwedd y gystadleuaeth.

Ni roddir canlyniadau na gwobrau ar y diwrnod gan y bydd angen sicrhau ansawdd y marcio.

Bydd pob cystadleuydd yn cael Tystysgrif Cyfranogi ac yn cael ei wahodd i Ddigwyddiad Dathlu ar-lein a gynhelir Dydd Iau 17eg Mawrth 2022, lle bydd y Wobrau Cyntaf, Ail a Thrydedd yn cael eu cyhoeddi. Bydd manylion pellach yn cael eu cyfleu i gystadleuwyr a'u pwyntiau cyswllt trwy e-bost.

Bydd taflenni marciau ar gael i gystadleuwyr ar ôl i'r broses sicrhau ansawdd gael ei chwblhau.

## Arweinydd Cystadleuaeth

Am ymholiadau cyffredinol a chyngor technegol am y gystadleuaeth cysylltwch â
Paul Edwards: paul.edwards@gllm.ac.uk

**Ymholiadau eraill**
Nia Rhys Jones: n.jones@gllm.ac.uk

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2021 – Skills Competition Wales 2021